**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **26 Mawrth 2014**

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** **Pennaeth Cyllid ac Asedau**

**Awdur yr Adroddiad:** **Prif Gyfrifydd**

**Teitl:** **1. Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol (Cyfrifon 2013/14) a**
**2. Hysbysiad o Ardystiad Cyfrifon 2012/13**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ceir adroddiad o'r enw 'yr Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol' ac fe'i paratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) ac mae ynghlwm fel Atodiad 1. Mae'r adroddiad yn nodi materion fel rolau a chyfrifoldebau, y dull archwilio, adrodd, elfennau allweddol o'r gwaith archwilio a'r tîm archwilio ariannol.

Darparu'r Pwyllgor gyda hysbysiad ffurfiol fod y broses ardystio archwilio ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2012/13 wedi ei chwblhau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'n ofynnol i'r archwilwyr allanol baratoi a chyflwyno'r adroddiad hwn er mwyn cyflawni eu gofynion o dan safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth.

I roi gwybod i'r aelodau bod proses ardystio Datganiad Cyfrifon 2012/13 wedi dod i ben yn ffurfiol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad.

I nodi bod y broses ardystio wedi dod i ben yn ffurfiol mewn perthynas â Datganiad Cyfrifon 2012/13.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

**Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol**

Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi amlinelliad o'r gwaith archwilio ariannol i'r Cyngor, sydd ei angen ar gyfer datganiadau ariannol 2013-14. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y dull archwilio, gan gynnwys y risgiau archwilio allweddol sydd wedi'u nodi yn ystod y broses gynllunio gychwynnol a'r camau bwriedig i fynd i'r afael â nhw. Bydd y gwaith archwilio

ariannol ar y meysydd risg hyn yn cael eu defnyddio i lywio barn archwilio ar y datganiadau ariannol.

**<u>Datganiad Cyfrifon 2012/13</u>**
Mae rhan o'r broses archwilio statudol yn caniatáu i'r cyhoedd archwilio'r cyfrifon ac yn gwahodd partïon â diddordeb i godi cwestiynau a gwrthwynebiadau am drafodion o fewn y flwyddyn ariannol. Codwyd cwestiynau ynghylch nifer o bynciau yn uniongyrchol gyda'r cyngor a chyflenwyd gwybodaeth a chopïau o ddogfennau amrywiol. Fe wnaeth y cyngor gyflawni ei ofynion yn hyn o beth. Yn dilyn hynny, codwyd rhai o'r un materion yn ffurfiol fel gwrthwynebiadau o dan yr un broses gyda Swyddfa Archwilio Cymru. Ar yr adeg y cymeradwywyd y cyfrifon gan y cyngor ym mis Medi 2013, roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn dal mewn gohebiaeth gyda dau aelod o'r cyhoedd a oedd wedi codi gwrthwynebiadau.

Gellir cadarnhau nawr bod pob gohebiaeth wedi dod i ben a’r materion wedi’u datrys. Ni wnaeth yr un gwrthwynebiad a godwyd o dan y broses arolygu cyhoeddus arwain at newidiadau i'r ffigurau neu’r nodiadau ategol a ddatgelwyd yng nghyfrifon 2012/13.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r gwasanaeth archwilio yn ddarpariaeth statudol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig, o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio ac ardystio datganiadau ariannol y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig hefyd fod yn fodlon bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**6. Faint fydd hyn yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid yw'r ffioedd ar gyfer gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â'r archwiliad ariannol wedi’u cwblhau eto. Mae rhagor o fanylion am y rhesymau yn cael eu cynnwys yn eu hadroddiad.

**7. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?**

Mae cynnwys bras yr adroddiad wedi cael ei drafod gyda'r Pennaeth Cyllid ac Asedau ac uwch aelodau o'r Adran Gyllid.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r archwiliad blynyddol yn ddarpariaeth statudol. Bydd ffioedd archwilio yn cael eu hystyried pan fyddant wedi cael eu cwblhau. Mae'r ffioedd yn ymrwymiad cyllideb presennol i’r awdurdod. Ni wnaeth y materion a godwyd o dan gylch gwaith y cyhoedd yn archwilio cyfrifon arwain at unrhyw newid i'r cyfrifon neu unrhyw faterion llywodraethu ehangach.

## 9. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Dylai'r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau sylweddol ac ymateb y rheolwyr i fynd i'r afael neu leihau risg neu effaith.